**20fed Cyfarfod o Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**
**Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2019**
**11:00am - 12:30pm**
**Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**
**Cofnodion**

**AELODAU**

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**
Julie James, AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Cadeirydd
Hannah Blythyn AC, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Y Cyng. Anthony Hunt, (Torfaen)
Y Cyng. Peter Fox (Sir Fynwy)
Y Cyng. Dyfrig Siencyn, (Gwynedd)
Y Cyng. Mark Whitcutt (Casnewydd)
Y Cyng. Susan Elsmore (Caerdydd)

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**
Y Gwir Anrh. Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Peter Curran – Cyfarwyddwr Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Nigel Aurelius – Torfaen (Prif Swyddog Cyllid)

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**
Sara Faye – Cynghorydd Arbennig
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Phartneriaethau Gweithlu Llywodraeth Leol
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
Matthew Jenkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Partneriaethau a Chydweithredu, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Matthew Wellington – Pennaeth Gweithredu'r Gyllideb, Trysorlys Cymru

**YMDDIHEURIADAU**

Y Cyng. Debbie Wilcox (Casnewydd)
Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i'r trydydd Is-grŵp Cyllid ar gyfer 2019. Byddai cyfarfod arall yn cael ei gynnal fis Medi, a byddai Gweinidogion eraill yn mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol i drafod gwahanol agweddau ar wariant llywodraeth leol ar wasanaethau.

**Eitem 2: Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol (Papur 1)**

2. Cadarnhawyd y camau gweithredu, ac roeddent ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn yn ôl y gofyn. Cytunwyd y dylid derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf fel gwir gofnod.

**Eitem 3: Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Diweddariad ar lafar)**

1. Dechreuodd Mr Michael drwy ddweud bod llawer o'r materion a oedd yn effeithio ar yr heddlu yn debyg i'r rhai a oedd yn effeithio ar lywodraeth leol, o ganlyniad i'r cyfnod o gyni, Brexit, yr ansicrwydd ynghylch yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, a goblygiadau cyllideb a oedd yn cael ei ymestyn i'r dyfodol. Eglurodd fod yr adolygiad o waith yr heddlu mewn ysgolion yn dod i ben, a phwysleisiodd unwaith eto fanteision y gwasanaeth hwn i'r gymuned leol. Dywedodd fod y cynnydd ym mhraesept yr heddlu eleni yn ganlyniad i'r ffaith nad oedd Trysorlys EM wedi darparu digon o gyllid, a oedd yn golygu bod pobl leol yn talu mwy i lenwi bylchau yn y cyllid ar gyfer cefnogi materion lleol.

2. Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn croesawu'r adolygiad o weithio mewn partneriaeth, gan fod cryn dipyn o amser yn cael ei dreulio yn mynychu cyfarfodydd lle'r oedd yr un unigolion yn bresennol. Tynnodd sylw at y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Rhaglenni Rhanbarthol yn benodol.

3. Cydnabu'r Gweinidog yr heriau a wynebwyd wrth weithio o fewn cymysgedd o setliadau datganoledig a setliadau a oedd heb eu datganoli, a bod diffyg dealltwriaeth o'r meysydd lle'r oedd cyfrifoldebau wedi eu datganoli - ee y dreth gyngor - a'r angen i drafod y mater hwn yn fanwl gyda Llywodraeth y DU.

**Eitem 4: Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

4. Croesawodd y Gweinidog y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cyfarfod, gan bwysleisio unwaith yn rhagor ei bod yn awyddus i weld Aelodau eraill o Gabinet Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â llywodraeth leol mewn perthynas â'u portffolios, mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

5. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn deall y dewisiadau anodd ynghylch newid a thorri gwasanaethau yr oedd arweinwyr llywodraeth leol yn eu hwynebu. Ychwanegodd fod tueddiadau data yn awgrymu amcangyfrif y byddai costau gofal cymdeithasol i bobl hŷn yng Nghymru yn codi oddeutu £60 miliwn y flwyddyn erbyn 2022-23, ac y byddai'r costau ar gyfer plant yn codi oddeutu £80 miliwn y flwyddyn, o ran cynnal y lefelau gofal presennol. Roedd y pwysau ar gyllidebau yn golygu nad fyddai hyn yn gynaliadwy.

6. Soniodd y Gweinidog Iechyd wrth y grŵp am y gwaith a oedd wedi ei gomisiynu gan LE Wales i wneud ymchwil i'r pwysau gweithredol a'r costau y gallai gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol eu hwynebu yn y tymor byr a'r tymor canolig. Byddai adroddiad ar yr ymchwil hon ar gael erbyn yr haf, ac roedd LE Wales eisoes wedi ymgysylltu â CLlLC er mwyn sicrhau bod llywodraeth leol yn cyfrannu at y gwaith.

7. Manteisiodd y Gweinidog Iechyd ar y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ynghylch gwaith Grŵp y Gweinidogion ar Dalu am Ofal Cymdeithasol. Roedd y Grŵp yn ystyried y potensial i godi cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol drwy godi ardoll gofal cymdeithasol, neu amrywio'r cyfraddau treth incwm yng Nghymru. Gwnaed hyn o ganlyniad i gynnig yr Athro Gerry Holtham ar gyfer codi ardoll gofal cymdeithasol. Roedd trafodaethau tebyg yn digwydd yn Lloegr hefyd.

8. Byddai gwaith Grŵp y Gweinidogion yn esgor ar opsiynau a fyddai'n cael eu cyflwyno i randdeiliaid allweddol yn yr hydref. Eglurodd y Gweinidog Iechyd ei fod yn awyddus i sicrhau bod y sgyrsiau hyn yn rhai trawsbleidiol a fyddai'n cael eu cynnal cyn diwedd y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y dewisiadau'n llawn waeth beth oedd eu safbwynt gwleidyddol. Ychwanegodd ei fod yn awyddus i egluro'r hyn y mae gofal cymdeithasol yn ei olygu, ynghyd â'i gost a'i werth, a'r dewisiadau y byddai angen eu gwneud, i grwpiau llywodraeth leol, y trydydd sector, grwpiau tai, a dinasyddion Cymru.

9. Ychwanegodd y Gweinidog Iechyd ei fod am barhau i ddarparu'r £30m ar gyfer helpu i gyflawni blaenoriaethau ein cynllun “Cymru Iachach”, drwy helpu awdurdodau lleol i ddarparu eu gwasanaethau cymdeithasol craidd (i blant ac oedolion).

10. Dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol fod Gweinidog a Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wrthi'n ystyried yr agweddau economaidd lleol ar y sector gofal cymdeithasol. Gofynnodd am yr effeithiau pe bawn yn comisiynu gofal cymdeithasol mewn ffordd wahanol, er enghraifft pe bai llywodraeth leol yn darparu'r gofal hwn ei hunan, a'r effaith ar yr economi leol pe bai gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael eu talu ar yr un raddfa â gweithwyr llywodraeth leol.

11. Croesawodd y Cyng. Elsmore y cyfle i gael sgwrs agored, a chynigiodd helpu i lywio'r gwaith yr oedd LE Wales yn ei gyflawni, gan ychwanegu bod y rhan fwyaf o gynghorau yn gweld pwysau o 5-6% ar eu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, a bod y pwysau hynny'n gwaethygu. Adleisiodd y Cyng. Hunt sylwadau'r Cyng. Elsmore, gan ailadrodd y sylwadau a wnaed yn gynharach gan Mr Michael. Roedd yn cytuno â'r farn ynghylch cyfarfodydd, gan ddweud ei fod ef hefyd yn mynychu gormod o gyfarfodydd rhwng grwpiau sydd wedi eu sefydlu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, yn hytrach na threulio'r amser yn cyflawni'r camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfodydd hynny.

12. Dywedodd y Cyng. Siencyn wrth y grŵp am waith presennol ei gyngor i adolygu'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol, gan dynnu sylw at fwriad y cyngor i wella'r system recriwtio drwy wella'r strwythur gyrfa. Holodd ba fforwm fyddai orau ar gyfer trafod hyn a'i gyfathrebu i awdurdodau eraill.

13. Gwahoddodd y Gweinidog Iechyd y Cynghorydd i ysgrifennu ato'n uniongyrchol, gan ddweud ei fod yn agored i'r syniad o gynnal llai o gyfarfodydd a chreu strwythurau mwy effeithiol ar eu cyfer. Ychwanegodd ei fod wedi sefydlu bwrdd rhaglenni mwy ffurfiol yn ddiweddar i gefnogi Grŵp y Gweinidogion, a bod llywodraeth leol yn cael ei chynrychioli ar hwn drwy CLlLC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, a bod y Cyng. Huw David, Jon Rae a Giovanni Isingrini wedi cytuno i gymryd rhan.

14. Ychwanegodd y Gweinidog Llywodraeth Leol y byddai Is-grŵp Diwygio Cyngor Partneriaeth Cymru yn ystyried sut y gellid cael trefn ar nifer y cyfarfodydd a dwyn y grwpiau ynghyd.

15. Soniodd y Cyng. Whitcutt wrth y grŵp am gynhadledd yr oedd wedi ei mynychu'r wythnos flaenorol, ac am adroddiad a oedd wedi ei ariannu drwy'r Ganolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Roedd yr adroddiad yn amlygu effeithiau dibyniaeth ar fudd-daliadau ar yr economi leol. Nododd fod yr erthygl yn amcangyfrif bod £103m yn cael ei golli yn Abertawe a £70m yng Nghasnewydd yn sgil diwygio'r system les.

16. **Cam gweithredu: Cytunodd y Cyng. Whitcutt i gylchredeg copi o'r adroddiad.**

17. **Cam gweithredu: Dywedodd y Gweinidog y byddai'n gwahodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i siarad am ei waith ar yr economi sylfaenol mewn cyfarfod yn y dyfodol.**

18. Ychwanegodd y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd fod Bwrdd Effeithlonrwydd Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu’r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod amser yn cael ei dreulio yn y modd mwyaf buddiol. Dywedodd y byddai'n hapus i gyflwyno unrhyw awgrymiadau a wnaed gan lywodraeth leol i'r bwrdd. Ychwanegodd hefyd fod y Ganolfan Astudiaethau Economaidd Lleol yn cyflawni gwaith i'r Dirprwy Weinidog (Lee Waters AC) a oedd yn canolbwyntio ar fentrau yn Preston. Roedd y mentrau hyn yn adolygu'r broses gaffael leol, ac efallai byddai'n ddiddorol rhannu'r wybodaeth hon â'r Byrddau Gwasanaethu Cyhoeddus, ar ôl i'r gwaith adolygu ddod i ben.

19. Diolchodd y Gweinidog Llywodraeth Leol i'r Gweinidog Iechyd a'r grŵp am gymryd rhan yn y drafodaeth.

**Eitem 5: Papur CLlLC ar y Pwysau ar Gyllidebau Llywodraeth Leol**

20. Rhoddodd y Cyng. Hunt drosolwg ar bapur CLlLC, gan dynnu sylw at y tri phrif beth a oedd yn pwyso ar gyllidebau llywodraeth leol, sef costau'r gweithlu,

gwasanaethau a oedd yn ymateb i lefel uchel o anghenion/ yr oedd lefel eu cost hefyd yn uchel, a chyfrifoldebau newydd. Roedd yn cydnabod yr heriau yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu, ac roedd yn croesawu trafodaethau agored a gonest.

21. Dilynodd Jon Rae hynny drwy amlinellu'r gostyngiad yn nifer y swyddi yn y sector cyhoeddus a meintioli bil cyflogau llywodraeth leol drwy ddefnyddio adroddiad diweddar Uned Dadansoddi Cyllidol Cymru, a oedd yn amlygu'r pwysau y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu yn sgil y codiadau i gyflogau athrawon ac o bosibl yn sgil y prisiad tair blynedd o bensiynau llywodraeth leol.

22. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n hoffi deall yn well effeithiau colli'r swyddi hyn ar yr economi leol, er mwyn iddi allu deall y darlun llawn yn hytrach na dim ond effeithiau'r toriadau mewn gwasanaethau.

**Eitem 6: Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd – yr wybodaeth ddiweddaraf am gyllid**

23. Amlinellodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd baratoadau'r Gyllideb. Dywedodd fod y diffyg eglurder ynglŷn â chynnal Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, sy'n parhau o du Llywodraeth San Steffan, yn anffodus. Y senario mwyaf tebygol oedd y byddai Llywodraeth y DU yn gosod cyllideb a fyddai'n cael ei hymestyn ymlaen, ond nad oedd manylion yr effeithiau ymarferol a fyddai'n deillio o hynny yn glir. Byddai'n ysgrifennu i'r pwyllgorau Busnes a Chyllid maes o law i ddweud y gallai'r Gyllideb Ddrafft fod ym mis Rhagfyr, a'r Gyllideb Derfynol ar ddechrau mis Mawrth, oherwydd yr ansicrwydd.

24. Nododd y Gweinidog Cyllid ei bwriad i wneud datganiad ar Ragolygon y Dyfodol ar gyfer Gwariant Cyhoeddus, ar 16 Gorffennaf. Byddai hyn yn rhoi gwybodaeth am amryw o ffactorau er mwyn darparu cymaint o dryloywder â phosibl ar gyfer partneriaid, gan gynnwys y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyflogau sector cyhoeddus, rhagolygon datchwyddydd cynnyrch domestig gros, rhagolygon trethi datganoledig, a'r asesiad gorau posibl o lefel gyffredinol y cyllid a fyddai ar gael yn y blynyddoedd i ddod. Ychwanegodd y Gweinidog Llywodraeth Leol fod maes cyflogau athrawon yn destun pryder ac y byddai ganddi ddiddordeb glywed pa ragdybiaethau cynllunio yr oedd awdurdodau lleol wedi eu gwneud ar gyfer eleni a'r flwyddyn nesaf.

25. Dywedodd y Cyng. Hunt wrth y grŵp fod ei gyngor wedi rhagdybio y byddai cyflogau athrawon yn codi 2%.

26. Trafododd y Gweinidog Cyllid ei bwriad i gyhoeddi adroddiad cynnydd unwaith eto yn yr hydref, ar y rhaglen waith ar gyfer diwygio cyllid llywodraeth leol, fel yn y ddwy flynedd flaenorol.

27. Hefyd atgoffodd lywodraeth leol fod £2.4m ychwanegol wedi ei roi yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer rhyddhad ardrethi annomestig yn ôl disgresiwn, ac roedd wedi'i siomi i glywed gan y swyddogion refeniw nad oedd nifer o awdurdodau wedi cynllunio i ddefnyddio'r cyllid hwn i roi cymorth ychwanegol i fusnesau. Hefyd nododd y Gweinidog Cyllid ei bod wedi cael adroddiadau llafar bod rhai pobl ifanc a oedd wedi gadael gofal wedi wynebu sefyllfa lle'r oedd

awdurdodau lleol wedi ceisio mynnu eu bod yn talu ôl-ddyledion treth gyngor, er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno esemptiad newydd ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal nes iddynt gyrraedd 25 oed.

28. Ychwanegodd y Gweinidog Llywodraeth Leol ei bod yn cyfathrebu â chydweithwyr yn y Cabinet i bwysleisio y dylid rhoi gwybod i lywodraeth leol am eu dyraniadau grant ar gyfer y flwyddyn a'r blynyddoedd dilynol cyn gynted â phosibl, a nododd ei bwriad i gyfathrebu lle'r oedd cyllid ar gael mewn modd mwy agored a thryloyw. Dywedodd y Gweinidog bod nifer o grantiau penodol wedi cael eu cyflwyno neu eu cynnal yn hytrach na chael eu trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw gan nad oedd y Gweinidogion wedi cael sicrwydd ynghylch cyflawni canlyniadau heb y dull gweithredu hwn.

29. Ymddiheurodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol am yr oedi o ran rhoi gwybod i awdurdodau lleol am faint y byddai eu Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy eleni. Dylai pob awdurdod bellach wybod faint y byddent yn ei dderbyn, a byddai'n ceisio sicrhau na fyddai oedi tebyg yn digwydd yn y dyfodol.

30. Nododd y Gweinidog fod cyfle i anfon llythyr cynnar at y Prif Weinidog newydd yn San Steffan, i bwysleisio'r diffyg eglurder ar faterion a oedd yn ymwneud â chyllid yn y dyfodol, a'r angen i ddarparu eglurder ynghylch cyllido yn ogystal â thynnu sylw at y pwysau sydd ar gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Roedd y Cyng. Hunt yn cefnogi'r dull gweithredu hwn ac yn croesawu cynnal trafodaethau mwy agored a gonest ar faterion yn ymwneud â chyllid. Cynigiodd ef a Dr Llewellyn eu cefnogaeth ar gyfer anfon llythyr ar y cyd drwy CLlLC.

31. Gofynnodd y Cyng. Fox beth fyddai goblygiadau ymarferol cyllideb a oedd yn cael ei hymestyn ymlaen i'r dyfodol. Dywedodd y Gweinidog Cyllid fod swyddogion Cyllidebu Strategol yn edrych ar y senarios gwahanol y gallai cyllideb o'r fath eu creu, a byddent yn darparu mwy o fanylion pa fyddai hynny'n bosibl. Roedd y darlun yn gymhleth ac roedd llawer o senarios i'w deall. Er enghraifft, y ddealltwriaeth ar hyn o bryd oedd na fyddai cyllideb a oedd wedi ei hymestyn yn cynnwys y cyllid ychwanegol a oedd yn ei le ar gyfer cyflogau a phensiynau athrawon ar gyfer 2019-20, a oedd yn swm sylweddol o arian. Cynigiodd y Gweinidog Llywodraeth Leol gael sgwrs eglurhaol gyda llywodraeth leol ynghylch y rhagdybiaethau, wrth i bethau ddod yn gliriach.

32. **Cam gweithredu: Swyddogion Llywodraeth Cymru a CLlLC i baratoi llythyr ar y cyd i'w anfon i Lywodraeth y DU i geisio eglurder ar gynlluniau cyllidebol o fewn dull gweithredu cyffredinol ar gyfer cyfathrebu â Llywodraeth newydd y DU.**

33. CLlLC i ddarparu rhagor o wybodaeth am y rhagdybiaethau a wnaed gan awdurdodau lleol yn eu cyllidebau a'u cynlluniau ariannol ar gyfer y tymor canolig.

**Eitem 7: Adroddiad Cynnydd yr Is-grŵp Dosbarthu**

34. Rhoddodd Judith Cole yr wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad cynnydd yr Is-grŵp Dosbarthu, gan egluro'r rhaglenni gwaith ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig.

35. Anogodd Reg Kilpatrick yr aelodau i edrych ar y rhaglen waith i sicrhau eu bod wedi deall yr effeithiau y byddai'r gwaith yn eu cael ar ddosbarthu, a hefyd effeithiau dewisiadau polisi lleol.

36. Ychwanegodd y Cyng. Fox ei fod yn deall bod y problemau yn gysylltiedig â'r cwantwm yn bennaf yn hytrach nag â'r fformiwla ddosbarthu ei hun, ond nad oedd llawer o bobl y tu allan i'r ystafell yn deall hyn.

37. Gofynnodd y Gweinidog sut y gellid gwella lefel yr wybodaeth am broses y setliad ymysg aelodau etholedig llywodraeth leol ac eraill, a thybiai a fyddai angen sefydlu rhaglen hyfforddi. Dywedodd Dr Llewellyn fod CLlLC wedi bod yn cynnal sesiynau briffio gydag ACau a chynghorwyr yn ddiweddar i wella dealltwriaeth.

**Eitem 8: Unrhyw Fater Arall**

38. Rhoddodd y Gweinidog wybodaeth i'r Grŵp am Uwchgynhadledd Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan, a fyddai'n cael ei chynnal yn Abertawe gan Academi Wales ar 8/9 Hydref, gan ddweud y byddai'n croesawu cyfraniadau gan CLlLC.

39. Dywedodd hefyd y byddai'n gofyn i gydweithwyr yn y Cabinet fynychu'r digwyddiad, ac y byddai'n trafod â'r Prif Weinidog a fyddai ef yn croesawu cynnal cyfarfod o'r Cabinet yn ystod y digwyddiad.

40. Gorffennodd y Gweinidog drwy ddiolch i aelodau'r Grŵp am eu cyfranogiad, gan ddweud y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 25 Medi.